




Mae fersiwn Saesneg o Amser Gofal ar gael. An English version of Caring Times is available.

Gweithio gyda'n gilydd dros ofalwyr



Mae partneriaeth leol, yn cynnwys cynghorau lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'n partneriaid yn y sector wirfoddol wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd ar gynllun i Ofalwyr. Rydym am gymryd agwedd ranbarthol tuag at ofalwyr, a gweithio gydag ystod eang o sefydliadau sy'n dod i gyswllt â nhw. Bydd Strategaeth Gofalwyr Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro yn cael ei chreu i helpu'r rhanbarth i ddod yn amgylchedd fydd yn cefnogi ac yn helpu gofalwyr, a lle y gallant hwy, a'r rhai sy'n elwa o'u gwaith, ffynnu.

Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod o fewn ein cymunedau a bod pob cam yn cael ei gymryd i sicrhau bod rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn amgylchedd sy'n cefnogi'r ansawdd bywyd gorau i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal.

Nod y strategaeth yw cryfhau'r holl weithgaredd ledled y rhanbarth, lle mae anghenion gofalwyr yn ffactor pwysig, a bydd yn ddefnyddiol i drigolion ac ymarferwyr fel ei gilydd. Bwriad y strategaeth yw mynd i'r afael ag anghenion y grwpiau canlynol:

- Plant a phobl ifanc sy'n rhoi cymorth i'w rhieni neu aelodau eraill o'r teulu (gofalwyr ifanc)
- Gofalwyr sy'n oedolion ifanc
- Gofalwyr sy'n oedolion
- Gofalwyr sy'n rhieni
- Pobl sy'n rhoi gofal a chymorth ochr yn ochr â bod yn gyflogedig

- Pobl sy'n rhoi gofal a chymorth yn eu rôl gyflogedig ond yn rhoi gofal a chymorth ychwanegol at hynny (gofalwyr sy'n gweithio neu ofalwyr mewn cyflogaeth)
- Teuluoedd lle mae mwy nag un person yn gofalu
- Gweithwyr proffesiynol sy'n asesu neu gefnogi gofalwyr
- Rhai sy'n derbyn gofal
- Rheiny sydd mewn perthynas â gofalwr neu'r person y maen nhw'n gofalu amdanynt
- Aelodau o'r cyhoedd allai ddod yn ofalwyr o bosib, neu allai dderbyn gofal

Yn ychwanegol, bydd y strategaeth yn caniatáu i ni rannu a hybu'r ffyrdd y byddwn ni'n cefnogi gofalwyr ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, ac yn esbonio sut byddwn ni'n monitro ac yn cynnal y gefnogaeth honno.

Byddwn yn dechrau cyfres o weithgareddau cyn bo hir i gasglu barn gan y grwpiau uchod, yn cynnwys rhai grwpiau ffocws gyda gofalwyr lleol sydd eisoes wedi gwirfoddoli i'n helpu ni, ac arolwg sydd ar agor i bawb.

Bydd yr ymgynghoriad yn:

- Canolbwyntio ar saith o flaenoriaethau y mae'r rhanbarth yn bwriadu fydd yn ffocws i'n strategaeth ranbarthol, ac yn esbonio o ble maen nhw wedi dod.

- Bydd yn edrych ar yr hyn sydd angen ar ofalwyr – yn esbonio beth mae pob un o'r blaenoriaethau yn ei olygu – yn dangos enghreifftiau fydd yn golygu rhywbeth.
- Yn trafod sut rydyn ni'n cynllunio i wella pethau – yn rhoi enghreifftiau o bob un o'r blaenoriaethau.
- Gofyn i bobl ddweud wrthon ni beth yw eu barn ar bob un o'r blaenoriaethau a beth maen nhw'n ei olygu iddynt.
- Gofyn i bobl awgrymu syniadau yngl n â beth arall maen nhw'n meddwl y gallen/dylen ni wneud i wella pethau i ofalwyr.

Mae Grwpiau Ffocws, gyda phob sesiwn yn para dwy awr, yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

22 Mai yn dechrau am 10.30am –
Canolfan Hamdden Channel View, Jim

Driscoll Way, Caerdydd, CF11 7HB

24 Mai – yn dechrau am 10.30am
– YMCA Y Barri, CF63 4EE

6 Mehefin -

Sesiwn 1 yn dechrau am 10.30am;
Sesiwn 2 yn dechrau am 1.30pm -
Canolfan Hamdden Channel View

12 Mehefin – yn dechrau am
1.30pm - YMCA Y Barri

Os ydych am ymuno â ni yn un o'r grwpiau ffocws, cysylltwch â ni ar carersstrategyconsultation@valeofglamorgan.gov.uk neu ffoniwch 01446 704604

Os nad ydych yn gallu dod i un o'r grwpiau hyn, ond yn dymuno rhannu'ch barn gyda ni, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r e-bost neu'r rhif ffôn uchod.

Wythnos Gofalwyr 2019 (10 Mehefin – 16 Mehefin)



Os ydych yn gofalu am berthynas, cymydog neu ffrind sy'n methu ymdopi gartref oherwydd salwch tymor hir, oedran, anabledd neu gamddefnyddio cyffuriau, rydych chi'n ofalwr. Nid gweithiwr asiantaeth na gofalwr proffesiynol neu wirfoddol sydd gennym dan sylw.

Gall gofalu fod yn foddhaol ond gall hefyd effeithio ar fywyd yn y cartref, bywyd gwaith, amser rhydd a'ch perthynas â'r person yr ydych yn gofalu amdano. Nid oes rhaid eich bod yn byw yn yr un t â'r person i fod yn ofalwr drosto. Nid yw gofalwyr yn cael cyflog a chyfeirir atynt yn aml fel gofalwyr di-dâl/teuluol/anffurfiol.

Mae'r Wythnos Gofalwyr yn ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth o ofalu, tynnu sylw at yr

heriau y mae gofalwyr yn eu hwynebu a chydabod eu cyfraniad at deuluoedd a chymunedau. Mae wyth elusen fawr yn cefnogi'r wythnos. Thema 2019

ydy **Cysylltu Gofalwyr**

(gweler <https://www.carersweek.org/>) ac mae llawer o adnoddau i'w lawrlwytho yn <https://www.carersweek.org/get-involved/downloads>

Caiff digwyddiadau lleol sy'n digwydd yn ystod Wythnos y Gofalwyr eu dangos ar adran ddigwyddiadau dewis.cymru Digwyddiadau <https://www.dewis.cymru/Events.aspx> ac ar fap Carers UK, y gellir ei weld yma Digwyddiadau gerllaw

Mae'r Ap Velindre Mindfulness yn fyw nawr!

Mae'r ap am ddim newydd sbon hwn wedi'i greu gan y tîm seicoleg yma yng Nghanolfan Cancr Felindre. Nid yw'r Ap hwn yn ymwneud â chansr yn benodol er mwyn i bawb allu defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar fel offeryn i reoli gofid a phryder.

Caiff gwrandawyr eu tywys trwy ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar i helpu i wella iechyd a lles a gellir eu defnyddio cyn, yn

ystod neu ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Gallwch lawrlwytho'r ap trwy:

Google Play: https://play.google.com/store/apps/details?id=com.velindrecc.mindfulness&hl=en_GB

App Store: <https://itunes.apple.com/gb/app/velindre-mindfulness-app/id1450624693?mt=8>



Symud Ymlaen: Symud Mwy ac yn Amlach



Mae Adroddiad Blynyddol Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a Bro Morgannwg 2018 yn canolbwyntio ar fanteision gweithgarwch corfforol. Symud Ymlaen: Symud Mwy ac yn Amlach, yn dilyn adroddiad blynyddol y llynedd o'r enw: 'Moving forwards: Healthy travel for all in Cardiff and the Vale of Glamorgan', a oedd yn canolbwyntio ar deithio iach ac actif ac ar ddylanwad ceir.

Fel dywed Fiona Kinghorn yn ei rhagair i Adroddiad 2018,

"Rydym oll yn manteisio o fod yn actif. Gall fod yn hwyl, yn gymdeithasol ac yn rheswm dros gyfarfod ffrindiau a theulu. Mae'n ein helpu i deimlo'n dda ac yn codi ein hwyliau; gall dawelu straen, ein helpu i gynnal pwysau iach ac mae'n dda ar gyfer ein hiechyd corfforol. A does dim rhaid iddo gostio unrhyw faint."

Mae fformat Symud Ymlaen: Symud Mwy ac yn Amlach yn drawiadol ac mae'n cynnwys astudiaethau achos fideo ardderchog. Mae Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd eisiau cysylltu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol, trafniadaeth, cynllunio, addysg, chwaraeon a hamdden, cymuned, y trydydd sector a'r sector diwylliannol a chyflogwyr cyhoeddus a phreifat i gyflwyno'r achos dros annog a chynorthwyo rhagor o weithgarwch corfforol bob dydd.

Mae'r neges ganlynol i'r bobl ac i sefydliadau yn sail i'r adroddiad hwn:

I bawb:

- Eisteddwch lai, symudwch fwy ac yn amlach
- Defnyddiwch opsiynau teithio actif
- Ewch i fannau gwyrdd a glas i chwarae, cerdded a beicio
- Defnyddiwch y grisiau
- Gwnewch weithgareddau fel rhan o griw.

I sefydliadau (trosolwg):

- Sicrhewch fod yr amgylchedd corfforol (adeiladau, seilwaith, ffyrdd, manau agored) yn cynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion i gerdded neu feicio fel gweithgareddau hamdden neu i deithio a chymryd rhan mewn chwarae actif.
- Cyfannu a hyrwyddo cyfleoedd i fo yn actif trwy ac mewn lleoliadau (ysgolion, gweithleoedd, gofal iechyd a chymdeithasol, gofal sylfaenol)
- Gweithredu'r ymrwymadau y cytunir arnynt yn Siarter Teithio Iach Staff
- Cynnig ymyriadau gweithgareddau corfforol trwy'r gymuned ac un i un trwy sefydliadau ac mewn cymunedau lleol i gynorthwyo a hyrwyddo iechyd a lles.

Gellir gweld yr Adroddiad yma <https://sway.office.com/6QLeWnDIJVFgqoCx> (Adroddiad ar-lein Cymraeg ddim ar gael ar adeg cyhoeddi)

Ap cymorth cyntaf Ambiwlans St John

Gallwch lawrlwytho ap cymorth cyntaf Ambiwlans St John am ddim a fydd yn eich tywys trwy broses adfywio cardio-pwlmonaidd a sut mae delio ag amryw o argyfyngau eraill.

Gall hyd yn oed gwybodaeth cymorth cyntaf sylfaenol wneud gwahaniaeth rhwng colli ac achub bywyd. Mae ein dau ap cymorth cyntaf yn dod â chyngor a allai achub bywyd wrth flaenau eich bysedd.

Rhydd yr ap (y gallwch ei lawrlwytho ar gyfer Apple/iOS, Android neu BlackBerry) ganllaw cam wrth gam, ar ffurf lluniau a hefyd cyfarwyddiadau llais i chi allu cadw'ch dwylo yn rhydd i arfer y cymorth.



<http://www.sja.org.uk/sja/first-aid-advice/free-mobile-first-aid-app.aspx>

Bws Siopwyr Croes Cwrlwys a Morrison's



Mae Trafnidiaeth Gymunedol VEST yn cynnig trafndiaeth drws i ddrws i unigolion a'u gofalwyr na allant ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus oherwydd eu hoedran, ynysiad neu symudedd cyfyngedig. Gyda chymorth ariannol gan Gyngor Bro Morgannwg, gall VEST gynnig gwasanaethau siopa ddwywaith yr wythnos i breswylwyr y Barri a Gwenfô i fynd i unrhyw ran o Groes Cwrlwys.

Yn ogystal, gall preswylwyr o **BOB ARDAL** yn y Fro fynd i Morrison's yn y Barri neu yng nghanol tref y Barri bob dydd Sadwrn.

Mae'r cerbyd wedi ei addasu'n arbennig ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu'r rhai ag anghenion symudedd. Cewch fwynhau cyfarfod yr un gyrrwr cyfeillgar bob wythnos, a fydd yn fodlon eich helpu i'ch cartref gyda'ch neges.

Mae nifer o breswylwyr y Fro yn manteisio ar aelodaeth ar gyfer gwasanaethau. Ymunodd Brenda o'r Barri a'r cynllun ym mis Mai 2018 ac mae'n defnyddio'r bws siopwyr i wneud ei neges wythnosol yn Tesco, Croes Cwrlwys. Dywedodd: *"Rwy'n cael cerdded yn anodd felly mae'r bws siopwyr yn achubiaeth i mi. Mae'r gyrrwyr yn cyrraedd ar amser bob tro, maen nhw'n cario fy neges at y drws ac maen nhw'n hynod ofalgar; wn i ddim beth wnawn i hebbdyn nhw. Mae'n wasanaeth gwych."*

Mae'r gwasanaeth yn costio o gyn lleied â £1.50 y person bob ffordd.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch **02920 490335** neu ewch i <https://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=12525>.

Gwasanaeth Cyngor newydd i Gyn-filwyr

Mae'r gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth di-duedd, pwrpasol ac am ddim i aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, yn cynnwys gofalwyr ym Mro Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ystod o feysydd yn cynnwys Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyllid, Cyflogaeth a Thai.

Mae nifer o sefydliadau sy'n cynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog, felly gall dod o hyd i'r un addas fod yn gymhleth weithiau. Nod Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr Bro Morgannwg yw gwneud y broses mor hawdd â phosibl. Byddwn yn eich atgyfeirio at y sefydliad mwyaf priodol i chi gael y cymorth mae ei angen arnoch.

Os ydych chi'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd neu wedi gwasanaethu o'r blaen, gallwch chi a'ch teulu ddefnyddio ein

gwasanaeth cyngor a chymorth.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr neu dewch i un o'n sesiynau galw i mewn yn y llyfrgell leol yn: y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr, y Bont Faen, y Sili, Gwenfô, Sain Tathan, y Rhws, Dinas Powys.

I gael gwybod beth yw'r dyddiadau a'r amseroedd, cysylltwch â'r Swyddog Cyngor i Gyn-filwyr, Abi Warburton trwy ffonio **07725 704655** neu e-bostio: veteranservice@valeofglamorgan.gov.uk



Cyrsiau Iechyd a Lles am Ddim i Gleifion a Gofalwyr gan Raglenni Addysg



Mae'r GIG yn cynnig cyrsiau am ddim i helpu gofalwyr i ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles, sydd yn aml yn gallu cael ei anwybyddu. Mae'r cyrsiau yn mynd i'r afael ag ystod eang o destunau yn enwedig technegau i reoli straen, rhywbeth y gall gofalwyr fod yn agored iawn iddo oherwydd y pwysau a'r disgwyliadau sydd ynghlwm â'r rôl.

Beth fyddaf yn ei ddysgu ar y cwrs?

- Rheoli symptomau fel poen a blinder
- Delio â dicter, ofn a rhwystredigaeth
- Delio â straen, iselder a hunanddelwedd wael
- Bwyta'n fwy iach a chysgu'n well
- Gwneud penderfyniadau ac anadlu'n well
- Technegau ymlacio a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd

- Cyfathrebu'n well a bod yn fwy cadarnhaol
- Cynllunio a datrys problemau

Cymheiriaid sy'n arwain y cyrsiau ac mae cyfranogwyr yn dysgu gan ei gilydd, gan fanteisio ar gyngor a gwybodaeth ymarferol am wasanaethau lleol. Os digwydd y gallwch ddod ar y dydd – yna dewch. Er ei bod yn well gennym gael syniad o rifau o flaen llaw, deallwn y gall gofalu fod yn annisgwyl.

I gadw lle neu am ragor o wybodaeth:

Ffôn: **029 20 335 403**

Email: Epp.Info.cav@wales.nhs.uk

Testun: [\[eich enw\]](#) a **"â diddordeb"** i **079 76 050 178** neu **078 70 979 860**

Y dyddiad y mae'r cwrs yn dechrau	Math o gwrs	Lleoliad y cwrs	Amser
4 Mehefin 2019	Iechyd a Lles Chwe Wythnos	Ysbyty Llandochau	10:00am – 12:30pm
12 Mehefin 2019	Gweithdy 1 – Iechyd a Lles Meddyliol	Remploy (YMCA), Court Road, Y Barri, CF63 4EE	10:30am – 12:30pm
19 Mehefin 2019	Gweithdy 2 – Iechyd a Lles Corfforol	Remploy (YMCA), Court Road, Y Barry, CF63 4EE	10:30am – 12:30pm
20 Mehefin 2019	Iechyd a Lles Chwe Wythnos	Practis Teulu Gorllewin y Fro, Canolfan Iechyd Y Bont-faen	10:00am – 12:30pm

Epilepsi Cymru – GRŴP Y BARRI – COFFI A SGWRS

Fuoch chi erioed eisiau gwybod mwy am epilepsi? Mae Epilepsi Cymru'n cynnal bore Coffi a Sgwrs bob 4ydd dydd lau'r mis yng nghaffi Age Connect, Heol Holltwn, y Barri. Mae croeso i unrhyw un sydd am ddysgu rhagor, gofyn cwestiynau, gofyn am gyngor neu am ei Atgyfeirio neu rywun y mae ganddo ymholiad Taliad Annibyniaeth Personol sy'n gysylltiedig ag epilepsi - waeth p'un a ydych yn gofalu am rywun neu'n cynorthwyo rhywun ag epilepsi neu mae gennych chi epilepsi neu rydych eisiau gwybod mwy am y cyflwr anweledig hwn sy'n effeithio 1:94 o bobl Cymru.

HELPING PEOPLE WITH EPILEPSY THROUGHOUT WALES.



Nid oes apwyntiadau na baneri mawr piws yn datgan epilepsi, dim ond gr p o bobl y mae epilepsi'n effeithio arnynt, yn cwrdd am goffi a phaned, dan arweiniad Lesley o Epilepsi Cymru. Yr unig bethau na all Lesley eu trafod yw meddyginiaeth, Brexit a Manchester City!

Rhagor o wybodaeth: Lesley@epilepsy.wales
Ffôn/neges: **07710 395070**

Ymwybyddiaeth Epilepsi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymunwch â ni i godi ymwybyddiaeth am epilepsi yng Nghynulliad Cymru ddydd Mawrth 21 Mai 2019 yn ystod Wythnos Epilepsi Genedlaethol (20-26 Mai 2019).

Bydd cyfle i gwrdd â'ch Aelod Cynulliad lleol a siarad ag e am unrhyw fater epilepsi – boed hynny'n rwystredigaeth oherwydd y diffyg apwyntiadau sydd ar gael gyda'ch ymgynghorydd, sut rydych chi'n teimlo fel gofalwr a/neu os ydych chi am ganmol eich nyrs epilepsi.

Ymunwch â ni yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd rhwng hanner dydd a 1.30pm ar 21 Mai – mae'n gyfle unigryw i godi eich pryderon am driniaeth epilepsi, yn lleol a thrwy Gymru.



Ymwybyddiaeth epilepsi yn y Senedd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

e-bost:

info@epilepsy.wales

neu ffoniwch: **0800 228 9016 / 01978 312 325**

Cyngerdd Ymlaciedig i ofalwyr ym Mhier Penarth

Cynhelir cyngerdd mewn amgylchedd cefnogol i'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a'u gofalwyr am 1.30pm ddydd Gwener 29 Mehefin 2019 ym Mhier Penarth. Bydd cerddorion gwych yn chwarae uchafbwyntiau o yl Gerdd Siambr Penarth, yn cynnwys cerddoriaeth gan Schubert, Beethoven, Faure a Mendelssohn.

Mae tocynnau ar gael un ai drwy ffonio'r ffynhonnell tocynnau ar **0333 6663366** neu ar y drws.

Mae mwy o wybodaeth am y cyngerdd ar gael yn <http://penarthchambermusicfestival.org.uk/programme>

Canolfannau Gwybodaeth a Chymorth



Hoffai Gwasg Gofal longyfarch Mary Bollingham, gwirfoddolwr yng Nghanolfan Wybodaeth Ysbyty'r Barri. Enillodd Mary wobwr Gwirfoddolwyr Bwrdd Ysbyty Athrofaol Caerdydd a'r Fro ac mae hi'n wyneb cyfeillgar yn yr ysbyty sy'n rhoi cymorth mawr ei angen i bobl. Yn y llun mae Mary yn y seremoni wobrwyo wrth ymyl Jane Rowlands-Mellor, Nyrs Arweiniol Profiad y Claf Bwrdd Iechyd Athrofaol Caerdydd a'r Fro.



Mae gan Fwrdd Iechyd Athrofaol Caerdydd a'r Fro dair Canolfan Gwybodaeth a Chymorth. Mae'r gwasanaeth hwn yn gymorth i unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth iechyd, drwy roi gwybodaeth am ddim ar bapur a thrwy gyfrwng y rhyngwyd. Mae'n cyfeirio pobl at wasanaethau ac yn cynnig cyfle i siarad yn gyfrinachol.

Cysylltwch â ni:

- Canolfan Wybodaeth a Chymorth Macmillan, Ysbyty Athrofaol Cymru, y Cyntedd,

Parc y Mynydd Bychan, CAERDYDD
CF14 4XW Ffôn: 029 2074 5655

- Canolfan Wybodaeth a Chymorth, Ysbyty Athrofaol Llandochoau, y Plaza, Penlan Road, Llandochoau, CF64 2XX. Ffôn: 029 2071 6311
- Canolfan Wybodaeth a Chymorth, Ysbyty'r Barri, Heol Colcot, Y Barri, CF62 8YH. Ffôn: 01446 704141

Am ragor o wybodaeth e-bostiwrch yr hwylusydd Sarah Davies:

sarah.davies37@wales.nhs.uk, ffôn: **07973715912**

neu ewch i'n gwefan: www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk – adran Ein Gwasanaeth

Grŵp Gofalwyr Hafal

Mae Hafal yn cynnig y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd dros gyfnod o 12 wythnos ar gyfer gofalwyr pobl sy'n dioddef afiechyd meddwl hirdymor ac sy'n derbyn gwasanaeth eilradd (pan yw'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn rhoi gofal dros y sawl sy'n derbyn gofal). Mae Staff Cymorth i Deuluoedd Hafal yn cynnig eiriolaeth, cymorth emosiynol, llesiant, gwybodaeth a chyngor a chyfluoedd gwirfoddoli.

Mae Hafal yn cynnig gr p gofalwyr bob trydydd dydd Mercher bob mis rhwng 10am a



12pm yn Ystafell Gyfarfod, Ysbyty'r Barri. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Julie Pickin **07580 792168** neu e-bostiwrch julie.pickin@hafal.org neu ewch i <https://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=17321>

Y Mynegai

Ydych chi'n gofalu am blentyn / person ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol?

Ymunwch â dros 700 o deuluoedd sydd wedi cofrestru i'r Mynegai yn y Fro!

Mae'r Mynegai yn rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n digwydd yng Nghaerdydd a'r Fro.

Gallwch gofrestru i'r Mynegai os ydych:

- yn rhiant neu'n gofalu am blentyn / person ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol
- yn weithiwr proffesiynol sy'n gweithio â phlant neu bobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol

Mae cofrestru yn golygu'r manteision canlynol:

- Y Mynegai – cylchlythyr bob 3 mis. Mae'n llawn gwybodaeth.



- E-Newyddion Y Mynegai - e-byst am weithgareddau a digwyddiadau ychwanegol.

I gofrestru i Y Mynegai cysylltwch â'r Swyddog Mynegai Rhanbarthol (Caerdydd a'r Fro):

0800 587 10 14

index@valeofglamorgan.gov.uk



Gwobrau Deall Anabledd 2019

Bob blwyddyn, mae Ffederasiwn y Rhieni'n cynnal seremoni wobrwyo i gydnabod a dathlu ymdrechion y rhai sydd wedi gwneud ymdrech ychwanegol i gynnwys ein plant. Rydym yn annog enwebiadau trwy'r flwyddyn i gydnabod y llawer arwr cudd sy'n gwneud bywyd ein plant gymaint yn haws.

Mae'r Gwobrau Deall Anabledd yn cydnabod gweithgarwch ac ymrwymiad unigolion wrth hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau dysgu.

Ydych chi'n gwybod am:

- gyflogwr
- Ysgol/Coleg neu Gynorthwydd Athro/Dysgu
- Gwirfoddolwr
- Grŵp neu sefydliad lleol



- Plentyn/gr p o blant neu bobl ifanc
- Gweithiwr proffesiynol
- Brawd neu chwaer neu ofalwr ifanc (dan 18 oed)

sy'n haeddu clod?

Beth am ei enwebu ar gyfer 26ain Seremoni Wobrwyo Deall Anabledd 2019?

Cwblhewch y ffurflen ar-lein: <https://goo.gl/forms/jXqh4ns0IRvBjxwk1> (Ffurflen ar-lein Gymraeg ddim ar gael ar adeg cyhoeddi) Dyddiad cau'r enwebiadau yw dydd Gwener 31 Mai 2019. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ffederasiwn y Rhieni ar **02920 565917** neu ewch i'r wefan: <https://www.parentsfed.org/> Mae Cylchlythyr Llais y Rhieni Gwanwyn 2019 nawr ar gael.

Angen Gofalwyr – Ymunwch â'n Panel Gofalwyr Arbenigol!



Mae Panel Arbenigwyr Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru yn gweithio at sicrhau y clywir llais gofalwyr a bod gofalwyr yn gallu dylanwadu ar, newid a siapio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r panel arbenigol yn cynnwys gofalwyr o ledled Caerdydd a'r Fro gydag amrywiaeth o brofiadau gofalu. Maent yn cynghori, rhoi barn ac adborth ar amrywiaeth o bethau, yn cynnwys:

- Ni – Ymddiriedolaeth Gofalwyr de-ddwyrain Cymru
- Yr Awdurdod Lleol
- Sefydliadau eraill yn y trydydd sector
- Sefydliadau'r sector preifat
- Deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau newydd sy'n effeithio ar ofalwyr
- Gwasanaethau neu gyfleoedd arbennig mae eu hangen ar ofalwyr
- Sut byddai gofalwyr yn hoffi cael eu cefnogi

Gwrandewir, cynrychiolir a gwerthfawrogi barn y panel. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr de-ddwyrain Cymru yn defnyddio adborth gan y panel i helpu i wella gwasanaethau ar gyfer pob gofalwr yng Nghaerdydd a'r Fro, yn ogystal â dylanwadu ar newid yn genedlaethol.

Bydd y cyfarfodydd yn digwydd fel a ganlyn:

Caerdydd – dydd lau olaf y mis, bob yn ail fis

Dwyrain y Fro – dydd lau olaf y mis, bob yn ail fis

Gorllewin y Fro – dydd Mawrth cyntaf y mis, bob yn ail fis

Dyma'r dyddiadau sydd wedi eu cadarnhau:

Dydd lau 30 Mai 2019 1.00pm – 3.00pm
Neuadd Goffa Rhiwbeina, 1 Lôn Ucha,
Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6HL

Dydd lau 27 Mehefin 10.00am – 12.00pm,
Neuadd Tref Penarth, West House Cottage,
Stanwell Road, Penarth, CF64 2YG

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 1.00pm – 3.00pm
Meddygfa'r teulu Gorllewin y Fro, The
Broad Shoard, y Bont Faen, CF71 7DA

Cynhelir bob cyfarfod mewn lleoliadau hygyrch gyda pharcio am ddim, a byddant yn cynnwys cinio neu swper ysgafn i bob mynychai. Gallwn ad-dalu costau teithio hefyd. Dylai gofalwyr â diddordeb gysylltu â Sian Salkeld ar: **01495 769 996** neu e-bostio engagement@ctsew.org.uk i mi allu rhoi rhagor o wybodaeth iddynt ac i mi gael syniad faint fydd yno.

Rhyngweithio. Ysbrydoli. Newid.

Ymunwch â'n Panel Gofalwyr, I helpu
Iunio gwasanaethau ar gyfer gofalwyr
di-dal Nghaerdydd a'r Bro Morgannwg.

Cysylltwch â Sian Salkeld ar 01495 769996 neu
ebost engagement@ctsew.org.uk I ddysgu mwy.



Y LLEI GOFALWYR YN BRO MORGANOG.



Mae Hyb Gofalwyr newydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru yn cynnig siop un stop i ofalwyr di-dâl i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol sy'n berthnasol i'w rôl ofalu ym Mro Morgannwg. Mae'r hyb yng nghanol tref Penarth ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener dan reolaeth Karla Judge-Heales (yn y llun).



Karla, Rheolwr newydd Hyb Penarth

Mae'r hyb yn cynnig gwasanaeth galw heibio i ofalwyr gael cyngor a gwybodaeth ar bopeth o fudd-daliadau i faterion cyfreithiol. Mae

Digwyddiad Gwybodaeth Mawr y Barri

Bydd digwyddiad yn: Gofal Ychwanegol Golau, Golau Caredig, Gladstone Road, Y Barri CF62 7AZ ddydd Mawrth 21 Mai 2019 rhwng 10am ac 1pm. Bydd y digwyddiad yn nodi Wythnos Weithredu Dementia 20-26 Mai (ewch i www.alzheimers.org.uk/get-involved/dementia-action-week) a bydd llawer o wybodaeth a chyngor i ofalwyr sy'n byw â dementia, yn ogystal â phaned a chacen am ddim.

Mae'r deiliaid stondin sydd wedi eu cadarnhau yn cynnwys:

Age Connect, Gofalwyr Cymru, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, T Hapus, Gwasanaethau Canolfan Ddydd T Rondel, Forget Me Not

ystod eang o weithgareddau bob wythnos – o grwpiau cymdeithasol i weithdai ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r hyb yn cynnig gofod braf i ofalwyr gymryd hoe oddi wrth eu rôl ofalu ac mae'n cynnig cysylltiadau i sefydliadau a grwpiau lleol. Mae gwasanaeth cwnsela am ddim hirdymor hefyd yn rhedeg o'r hyb yn cynnig cwnsela arbenigol i ofalwyr pobl â dementia neu iselder yn eu henaint.

Crëwyd Hyb Gofalwyr y Fro yn dilyn adborth gan ofalwyr lleol, gyda phobl yn mynegi'r angen ar gyfer y math hwn o wasanaeth ar gyfer gofalwyr. Mae gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru doreth o brofiad wrth gynnal hybiau arbenigol ar gyfer gofalwyr a bydd model Hyb Gofalwyr y Fro yn cynnwys gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwledig y fwrdeistref yn y dyfodol.

Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru yw prif ddarparwr cymorth ymarferol ar gyfer gofalwyr a'r rhai ag anghenion gofal sy'n byw yn Ne Ddwyrain Cymru.

Hyb Gofalwyr y Fro, West House Cottage, Stanwell Rd, Penarth, CF64 2YG

Ffoniwch Karla **02921 921024** neu e-bostiwch karla.judge-heales@ctsew.org.uk am ragor o wybodaeth.



Chorus, Woody's Lodge, Strategaeth 50+ y Fro, yr Alzheimer's Society Cymru, Gweithredu dros lechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro, Gwasanaethau Llyfrgelloedd y Fro a Thîm Gofalwyr y Fro.

Ceir rhagor o wybodaeth ac unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd yn Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia yn:

www.dementiafriendlyvale.co.uk/
dementiafriendlybarry@outlook.com
[@dementia_vale](https://twitter.com/dementia_vale)



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Addewidion Gwasanaeth Ambiwllans Cymru i Bobl Hŷn

MAE Gwasanaethau Ambiwllans Cymru Ymddiriedolaeth GIG wedi lansio rhestr o addewidion i'r bobl hŷn sy'n defnyddio ei wasanaethau. 'Mae ein Haddewidion i Bobl Hŷn' yn cynnwys addewidion i drin pobl hŷn ag urddas a pharch, cynnig a chyfathrebu da os yw claf yn colli synnwyr ac adnabod arwyddion pobl a dementia (gweler <http://www.ambulance.wales.nhs.uk/Default.aspx?pagelid=317&lan=cy>).

Ein haddewidion i chi

Pan fo ein hangen arnoch, rydym yn addo:

- ❖ Cyrraedd argyfwng lle mae bywyd mewn perygl cyn gynted â phosibl;
- ❖ Rhoi'r ymateb a'r gofal gorau at eich anghenion, gyda staff â'r sgiliau cywir;
- ❖ Bod yn garedig, cymwynasgar a'ch trin ag urddas a pharch;
- ❖ Bod yn broffesiynol a chwrtais, eich cynnwys yn ein penderfyniadau, egluro beth rydym yn wneud a pham;
- ❖ Bod yn dawel, dangos tosturi a bod yn amyneddgar;
- ❖ Bod yn ystyriol o'ch anghenion penodol o'r foment rydym yn ateb eich galwad (e.e. os oes dementia arnoch, os ydych yn ofalwr, mae arnoch anabledau, cyflyrau
- ❖ gwahanol, rydych chi mewn poen neu'n fregus)

- ❖ Rhoi gwybodaeth dda a chyfathrebu'n dda os ydych yn colli synnwyr; (yn cynnwys colli'r clyw neu'r golwg) a'ch cynorthwyo os oes gennych broblemau symudedd;
- ❖ Ni awn â chi i'r ysbyty ond os oes wir angen;
- ❖ Adnabod arwyddion pobl â dementia a'u hanghenion;
- ❖ Sicrhau y cewch yr ymateb cywir ar gyfer eich anghenion os ydych yn syrthio;
- ❖ Parchu eich dymuniadau chi a'ch teulu yn ystod cyfnodau caled ac emosiynol.

Os oes angen trafndiaeth arnoch i fynd i apwyntiad:

- ❖ Gwnawn bob ymdrech i fynd â chi i'ch apwyntiad mewn pryd a mynd â chi adref;
- ❖ Caniatáu i aelod o'ch teulu/gofalwr deithio â chi os na allwch chi deithio ar eich pen eich hun.

Os oes gennych ofalwr, byddwn yn:

- ❖ Ei drin yn gydradd ac yn rhoi gwybodaeth iddo am beth sy'n digwydd;
- ❖ Cynnwys eich gofalwr mewn unrhyw drafodaeth a pharchu ei farn;
- ❖ Gadael i'ch gofalwr ddod gyda chi.

Am ragor o wybodaeth am yr Addewidion, ewch i <http://www.ambulance.wales.nhs.uk/NewsDesk?lan=cy> neu ffoniwch **01745 532900**



Gwefan Partneriaeth Gweithlu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi ei diweddaru

Unodd adrannau hyfforddi'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Bro Morgannwg a Chaerdydd o'r 1af o Ebrill 2018. Bydd yn cynnig cyrsiau hyfforddi a chyfleoedd datblygu i staff mewnol a darparwyr gofal cymdeithasol allanol trwy'r rhanbarth gyfan. Dyma gyfeiriad ein gwefan: <https://www.cardiffandvalesocialcare.co.uk/cy/>

Ers tipyn o amser, mae gweithgor bychan wedi bod yn ystyried yr hyfforddiant sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, yn cynnwys gofalwyr ifainc a sut y gellir rhoi hwn ar gael yn rhwyddach i ystod ehangach o bobl, ym Mro Morgannwg a Chaerdydd.

Nod y project yw adnabod, cyfathrebu, darparu gwasanaethau a chynorthwyo gofalwyr di-dâl. Bydd yn hyrwyddo ac yn rhannu arfer dda ac yn dod o hyd i ffyrdd arloesol a chynaliadwy o gynorthwyo gofalwyr yn fwy effeithiol. Bydd yn ystyried dysgu o bellter a'r e-fodiwlau sydd ar gael ar amryw borthol a allai fod o ddiddordeb ac/neu o gymorth i ofalwyr.

Mae'n glir bod gofalwyr yn rhoi pwysigrwydd mawr ar feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl gofalu a hoffent gyrsiau hyfforddi priodol i wneud hynny. Mae Adroddiad Cyflwr Gofalu 2018 Gofalwyr Cymru yn nodi ar dudalen 8 bod "Rhoi'r wybodaeth, hyfforddiant ac offer cywir i ofalwyr ar yr amser cywir i allu gofalu'n dda ac y ddiogel" yn brif flaenoriaeth ar gyfer gofalwyr.

Un o'r anawsterau ydy bod yr hyfforddiant yn digwydd ar gyfer gofalwyr ar draws y rhanbarth, sy'n ei gwneud yn anodd i ofalwyr ddarganfod beth sy'n digwydd ac ym mhle. Bu'n fwrriad bod lleoliad canolog ar y we, sy'n dod â'r holl hyfforddiant ar wahân at ei gilydd. Felly, rydym yn falch bod gwefan wedi ei diweddaru yn cael ei lansio gan bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol yn ystod Wythnos Gofalwyr 2019, sy'n arbennig ar gyfer gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifainc. Dyma'r wefan:

<https://www.cardiffandvalesocialcare.co.uk/cy/rhieni-gofalwyr-digyflog/>

Mae tudalen we'r Bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol ar waith a bydd yn ehangu ac yn datblygu dros amser; ond byddem yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth hyfforddiant arall yr hoffech ei chael ar y wefan ranbarthol hon ac a oedd unrhyw beth y mae angen ei ychwanegu, naill ai trwy e-bostio HyfforddiantGofalCymdeithasolCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio **02920 871048**

Ymhen amser, bydd gan wefan y Bartneriaeth Gweithlu Rhanbarthol ddolenni at wefannau ar gyfer hyfforddiant pwrpasol a bydd hefyd yn cynnwys dolen at adnodd ar-lein Dewis Cymru (www.dewis.cymru).



Valeways – Grŵp Cerdded newydd i ofalwyr

Mae Valeways yn cynnig taith dywys newydd o fis Ebrill 2019. Cynigir y daith gerdded i ofalwyr o bob oed, yn ogystal â'u cyfeillion a theuluoedd.

Mae Carers Trust Wales wedi cyfrifo bod o leiaf 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, sy'n fwy na phoblogaeth Caerdydd. Cred Carers Trust Wales y bydd 3 o bob 5 ohonom yn dod yn ofalwr rhyw bryd yn ein bywydau ac mae disgwyl i'r ffigwr hwn godi (gweler <https://carers.org/country/carers-trust-wales-cymru>).

Bydd y daith gerdded i ofalwyr yn daith braf dow dow a fydd yn cynnig cyfle i ymarfer, cyfarfod pobl a mwynhau'r awyr iach. Gyda gobaiith, bydd y teithiau cerdded yn cynorthwyo gofalwyr i fyw

bywydau hapus a boddhaol ac yn rhoi chwa o egni iddynt ar gyfer eu rôl fel gofalwr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp hwn, bydd y daith yn digwydd am 10:30 ar ddydd lau olaf pobl mis. Byddwn yn cwrdd y tu allan i orsaf drenau Ynys y Barri, CF62 5TH a bydd y daith tua 45 i 60 munud o hyd.

Os hoffech gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Lynne -07729 991491 neu ewch i <https://www.dewis.cymru/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=2463> .





A Welsh version of Caring Times is available. Mae fersiwn Saesneg o Amser Gofalu ar gael.

Working together for carers



A local partnership, made up of the local councils in Cardiff and the Vale of Glamorgan, the Cardiff and Vale University Health Board, and our voluntary sector partners has started to work together on a plan for Carers. We want to take a regional approach to carers and work with a wide range of organisations that come into contact with carers. The Cardiff and Vale Integrated Health and Social Care partnership Carers Strategy will be created to help the region become a supportive and helpful environment within which carers, and those who benefit from their work, can thrive.

The partnership is committed to ensuring that carers are recognised within our communities and that every step is taken to ensure that the Cardiff and Vale of Glamorgan region is an environment that supports the highest quality of life both for those providing and in receipt of care.

The strategy is designed to strengthen all activity across the region where the needs of carers are an important factor, and will be useful for both residents and practitioners. The strategy intends to address the needs of the following groups:

- Children and young people who provide support to their parents or other family members (Young carers)
- Young adult carers
- Adult carers
- Parent carers

